Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Cwotâu rhyw yn Iwerddon**

**Noddir gan Siân Gwenllian AS**
**9 Gorffennaf 2021**
**Zoom, 11:30 – 12:40**

***Yn bresennol:***
*Sian Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Sarah Murphy AS*
*Jane Dodds AS*
*Sioned Williams AS*
*Fiona Buckley, Coleg Prifysgol Corc (Siaradwraig)*
*Caitriona Gleeson, Menywod i'w Hethol (Siaradwraig)*
*Catherine Fookes, WEN Cymru*
*Megan Evans, WEN Cymru*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*
*Abi Thomas, Plaid Cymru (Etholaeth Caerfyrddin a Sir Benfro)*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Jen Ramsay, Swyddfa Paul Davies AS*
*Cadi Evans, Swyddfa Sian Gwenllian AS*
*Davinia-Louise Green, Stonewall Cymru*
*Debbie Shaffer, FTWW*
*Hade Turkmen, Chwarae Teg*
*Rachel Minto, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Tina Reece,* Cymorth i Fenywod Cymru.
I, *Women Connect First*
*Melissa Wood, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
*Rosanna Johnston, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
*Patience Bentu, Race Council Cymru*
*Samsunear Ali, Bawso*

***Ymddiheuriadau:***
*Joyce Watson AS*
*Carolyn Thomas AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Heledd Fychan AS*
*Delyth Jewell AS*
*Laura McAllister, Prifysgol Caerdydd*
*Nancy Cavill, Swyddfa Jane Hutt AS*
*Sarah Childs, Prifysgol Llundain*
*San Leonard, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad** - *Cadeirydd*<br><br>Rhestrwyd y rhai a oedd yn bresennol a’r ymddiheuriadau gan Jessica Laimann |
| **2** | **Profiad gyda chwotâu rhyw yn Iwerddon -** Dr Fiona Buckley a Caitriona Gleeson<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y siaradwyr i'r cyfarfod a rhoddodd drosolwg byr o'r gwaith pwysig yr oeddent wedi'i wneud o ran cwotâu rhyw a chynrychiolaeth menywod |

mewn bywyd gwleidyddol yn Iwerddon.

Cyflwynodd Fiona Buckley ychydig o waith ymchwil ehangach ynghylch defnyddio cwotâu rhyw cyfreithiol o safbwynt rhyngwladol a'r UE, gan ddangos cynnydd mewn nifer, a'r effaith gadarnhaol a gafodd y rhain ar gynrychiolaeth menywod yn y senedd dros yr 20 mlynedd diwethaf. Cyn bo hir, roedd y dull wedi symud o gwotâu gwirfoddol i rai gorfodol gan nad oedd yr agwedd wirfoddol wedi bod mor effeithiol o ran gwella cynrychiolaeth menywod. Gellid cyflwyno cwotâu drwy gyfreithiau penodol, deddfau cydraddoldeb, diwygiadau i godau etholiadol a chyfreithiau yn ogystal â darpariaeth gyfansoddiadol. Roedd cwotâu yn 27 yr UE yn amrywio o 30-50 y cant ac roedd gwahanol ffyrdd o gymell cydymffurfiaeth, e.e. drwy sancsiynau ariannol a gwrthod ymgeiswyr rhestredig. Roedd yn haws rhoi cwotâu rhyw mewn system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol neu gymysg nag i system etholiadol luosogrwydd mwyafrifol ac, o fewn systemau etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol, roedd yn haws rhoi cwotâu rhyw o fewn system restr na system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Roedd gan rai gwledydd ddeddfwriaeth hefyd ynghylch lle i roi ymgeiswyr benywaidd ar y papur pleidleisio, e.e. drwy restrau cydraddoldeb fertigol “zipper”, a gofynion i roi menywod mewn seddi y gellir eu hennill.

Dywedodd Dr Buckley fod y gyfraith etholiadol yn Iwerddon wedi'i diwygio yn 2012 i ddarparu ar gyfer cwotâu rhyw o 30 y cant, sydd ond yn berthnasol, ar hyn o bryd, i etholiadau cyffredinol. Pe bai pleidiau gwleidyddol yn rhedeg llai na 30 y cant o fenywod (neu ddynion) byddent yn colli 50 y cant o gyllid y wladwriaeth. Roedd disgwyl i’r cwota hwn godi i 40 y cant o 2023. Cyflwynwyd cwotâu yn Iwerddon i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth barhaus menywod mewn gwleidyddiaeth. Mewn etholiadau cyn cyflwyno'r gyfraith, dewiswyd 17 y cant o ymgeiswyr benywaidd ar gyfartaledd a chafodd 12 y cant eu hethol. Roedd y sefyllfa wedi gwella rhywfaint ar ôl ethol Mary Robinson yn llywydd benywaidd cyntaf ym 1990, a chafodd hyn effaith ysgogol gref gan gynnwys cynnydd o 71 y cant yn nifer y menywod a safodd yn yr etholiad a 22 o fenywod yn cael eu hethol i Senedd Iwerddon ym 1992.

Yn anffodus, ni pharhaodd y cynnydd hwn ac ni lwyddodd y defnydd cychwynnol o gwotâu gwirfoddol i gyrraedd targedau. Rhoddodd y gwymp ariannol yn 2008 gychwyn ar sgwrs ddiwygio wleidyddol enfawr a oedd hefyd yn edrych ar y diffyg amrywiaeth yn y senedd. Arweiniodd hyn at sgyrsiau y tu mewn i'r senedd (o dan arweiniad y Seneddwraig Ivana Bacik) a'r tu allan drwy ysgogi menywod (grŵp 5050 a Women for Election). Roedd y glymblaid o gynghreiriau y tu mewn a'r tu allan i'r senedd yn llywio cwotâu rhyw, gan arwain at basio deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2012.

Ers ei gyflwyno, arweiniodd y cwota at gynnydd o 90 y cant yn nifer yr ymgeiswyr benywaidd a chynnydd o 44 y cant yn nifer y menywod a etholwyd. Gan i Iwerddon ddechrau o linell sylfaen isel iawn, dim ond 22.5 y cant oedd y ganran o fenywod yn y senedd o hyd, ond roedd newid cyflym yn digwydd, e.e. drwy gynnydd o 7 y cant o gynrychiolaeth menywod rhwng 2011 a 2016. Yn gyffredinol, roedd pob plaid yn bodloni'r cwota, er bod ymdeimlad bod hyn yn cael ei ystyried yn darged yn hytrach na safon ofynnol gan rai a dechreuodd y cynnydd arafu yn 2020. Tueddai pleidiau mwy newydd a'r rhai tuag at y chwith o'r sbectrwm gwleidyddol ddewis cyfrannau

uwch o fenywod na phleidiau eraill.

Roedd pleidiau wedi defnyddio cyfarwyddebau rhyw wrth ddethol ymgeiswyr ond yn dilyn dadl yn 2016, cafwyd arweiniad i ffwrdd o'r dull hwn tuag at y llwybr ychwanegiad yn 2020. Oherwydd y gosb ariannol o beidio â chydymffurfio, ni allai pleidiau fforddio anwybyddu materion cwota rhyw bellach, ond nid oedd prosesau dethol ymgeiswyr wedi'u trawsnewid rhyw lawer. Roedd cyfnod mewn swydd, lleoliaeth, personoliaeth a daearyddiaeth yn bwysig iawn yn y broses o ddethol ymgeiswyr yn Iwerddon, yn ogystal â mater "ymgeiswyr cronfa genynnau" o deuluoedd gwleidyddol adnabyddus. Roedd y ffactorau diwylliannol hyn yn cyflwyno rhwystrau parhaus i gynrychiolaeth gyfartal ac amrywiol. Ar yr un pryd, dengys yr ystadegau fod cefnogaeth eang gan y cyhoedd i gwotâu rhyw.

Dywedodd Caitriona Gleeson, nad oedd cwotâu yn unig, oherwydd natur sefydledig gryf y system batriarchaidd, yn ddigon i gyrraedd cynrychiolaeth gyfartal ond eu bod yn elfen hanfodol. Byddai'r cynnydd mewn cwotâu rhyw deddfwriaethol i 40 y cant yn yr etholiad cyffredinol nesaf yn helpu i atal llithro yn ôl ymhellach. Wrth symud ymlaen, roedd yn hanfodol ymestyn cwotâu i etholiadau llywodraeth leol, gan fod hwn yn gam pwysig i mewn i wleidyddiaeth genedlaethol. Ar hyn o bryd roedd 25 y cant o lywodraeth leol yn Iwerddon yn fenywod a 40 y cant yn y Seanad (tŷ uchaf), ond ni chafodd yr olaf eu hethol yn ddemocrataidd.

Mae’n bwysig nodi y byddai'r cynnydd mewn cwotâu i 40 y cant yn atal rhagor o lithro yn ôl. Roedd wedi cynyddu sylw'r pleidiau o ran y cyflenwad o ymgeiswyr benywaidd ac wedi newid y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â sefydliadau fel Women for Election a oedd yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i fenywod mewn gyrfaoedd gwleidyddol.

Ategodd Catriona Gleeson sylw Dr Buckley fod problem nad oedd menywod yn cael eu dewis i seddi y gellid eu hennill ac, os oeddent, anaml iawn yr oedd ganddynt gefnogaeth. Pwysleisiodd fod angen i gwotâu fod yn rhan o becyn ehangach a oedd yn mynd i'r afael â rhwystrau o ran menywod mewn gwleidyddiaeth, megis diffyg darpariaethau ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb rhiant yn Iwerddon.

Gwelwyd tystiolaeth o'r gefnogaeth gyhoeddus eang i gwotâu gan y ffaith bod cynulliad dinasyddion wedi cefnogi argymhellion Women for Election ar gwotâu ar gyfer llywodraeth leol. Yn dilyn trafodaethau ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, roedd y cynulliad o 100 o bobl a ddewiswyd o sampl haenog wedi pleidleisio 80 y cant o blaid cwotâu a thros 75 y cant o blaid sancsiynau.

Roedd y pandemig coronafeirws wedi amlygu materion cyflenwi critigol Iwerddon o fenywod yn y senedd, a oedd wedi arwain at y ffaith nad oedd unrhyw fenywod yn bresennol wrth y byrddau gwneud penderfyniadau wrth drafod yr ymateb i Covid-19. Roedd hyn wedi arwain at ganlyniadau niweidiol i fenywod yn Iwerddon, megis y ffaith nad oedd partneriaid yn cael bod yn bresennol ar gyfer genedigaeth mewn rhai ysbytai o hyd. Roedd cam-drin menywod mewn gwleidyddiaeth yn rhwystr hollbwysig pellach.

| | |
|---|---|
| **3** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol** – Cadeirydd<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r ddwy siaradwraig am eu cyflwyniadau craff a phwysleisiodd gyffelybrwydd rhwng y sefyllfaoedd yn Iwerddon a Chymru, e.e. yr angen i atal rhagor o lithro yn ôl o ran cynrychiolaeth menywod yn y senedd a'r pwysigrwydd o ran mynd i'r afael â chynghorau lleol, lle mai dim ond 25 y cant o gynrychiolwyr etholedig oedd yn fenywod.<br><br>Codwyd sawl cwestiwn a sylw yn y drafodaeth, gan gynnwys:<br>- *A oedd trafodaethau ynghylch cwotâu rhyw yn Iwerddon yn gysylltiedig ag amrywiaeth ehangach o ran cynrychiolaeth?* Dywedodd Fiona Buckley fod fforwm yn edrych ar amrywiaeth yn y senedd wedi'i sefydlu a bod y menywod cyntaf o'r gymuned Teithwyr wedi'u penodi yn yr etholiad diwethaf. Roedd trafodaethau'r pleidiau ynghylch amrywiaeth yn cynyddu ond nid oeddynt bob amser yn cyd-fynd â'r gefnogaeth angenrheidiol i ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol. Ychwanegodd Caitriona Gleeson mai dim ond tair menyw o liw a etholwyd ar lefel llywodraeth leol. Roedd Women for Election yn cynnal rhaglenni gwrth-hiliaeth rhyng-ddiwylliannol i wleidyddion ac yn cefnogi cwotâu amrywiaeth, e.e. drwy seddi penodedig.<br>- *A oedd trafodaeth ar ddeddfwriaeth ynghylch meysydd eraill, e.e. hyblygrwydd ac amseriad cyfarfod i fynd i'r afael â diwylliant presenoldeb a oedd yn anodd ei gysoni â chyfrifoldebau gofalu?* Dywedodd Caitriona Gleeson fod pwyslais bellach ar wleidyddiaeth sy'n ystyriol o deuluoedd ar lefel leol a chenedlaethol a darparu mannau diogel gan fod cam-drin ar-lein ac all-lein yn effeithio'n gryf ar ymgeiswyr benywaidd, yn enwedig menywod BAME.<br>- *Gan y byddai cwotâu'n cymell pleidiau i fuddsoddi mewn rhaglenni mentora a hyfforddi, dylem edrych ar yr arfer gorau ar gyfer mentora effeithiol i fynd law yn llaw â chyflwyno cwotâu*. Dywedodd Caitriona Gleeson mai rhaglenni hyfforddi ymarferol ac anffurfiol ynghyd â mentora sy'n gweithio orau o'i phrofiad hi. Awgrymwyd y gellid hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi/cysgodi i ddarpar ymgeiswyr BAME yng Nghymru drwy sefydliad fel Bawso, a oedd â chysylltiadau da â chymunedau BAME<br>- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch *natur ymwrthedd i gwotâu rhyw*, dywedodd Dr Buckley fod hyn o ganlyniad i strwythur patriarchaidd pleidiau gwleidyddol. Roedd cwotâu wedi amlygu manteision a breintiau ar sail rhyw a oedd ar waith o'r blaen. Gellid gweld ymwrthedd parhaus y strwythurau patriarchaidd, er enghraifft, wrth symud o gyfarwyddebau rhyw i'r system ychwanegu. Roedd heriau cyfansoddiadol yn dal i fynd drwy'r llysoedd ac roedd un fenyw wedi cael ei boicotio gan aelodau o'i phlaid ei hun ar ôl cael ei hethol. Roedd cwotâu rhyw yn amlygu'r strwythurau hyn ac yn arwain at sgyrsiau amdanynt.<br>- |
| **4** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) -** Rachel Minto<br><br>Dywedodd Rachel Minto fod y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru), cyn i'r DU ymadael â'r UE, wedi llunio dogfen a oedd yn amlinellu'r pum amcan sy'n ymwneud â deddfwriaeth, cyllid, cynhwysiant cymdeithasol, mynediad at rwydweithiau |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Ewropeaidd a chynrychiolaeth wrth wneud penderfyniadau a oedd yn allweddol berthnasol yn y broses o ymadael.<br><br>Roedd yn bwysig i'r Grŵp Trawsbleidiol gadw'r rhain mewn cof o gofio'r ffordd y mae Cymru, mewn llythyr gan y Prif Weinidog at Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, wedi gosod ei hun fel 'cenedl Ewropeaidd' ac wedi mynegi'r dymuniad i barhau i gyd-fynd â pholisïau a safonau cymdeithasol yr UE.<br><br>O dan yr Arlywydd newydd Ursula von der Leyen, roedd llawer o weithgarwch wedi'i wneud o ran cynnydd yn yr UE ym maes hawliau menywod a chydraddoldeb. Roedd yn hanfodol i Gymru barhau i fod yn rhan o'r trafodaethau hyn, er enghraifft o ran Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (TCA). Roedd Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, a gydgysylltwyd gan Charles Whitmore, yn hwyluso ymgysylltiad sefydliadau'r trydydd sector â'r broses Brexit ac roedd yn pwyso i sicrhau cynrychiolaeth ddatganoledig mewn dadleuon ar y Cytundeb.<br><br>Pwysleisiodd Rachel Minto ei bod yn bwysig i'r Grŵp Trawsbleidiol fod yn effro i'r trafodaethau hyn er mwyn sicrhau y gallai Cymru gael llais yn y strwythurau hyn a bod hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.<br><br>Roedd ffyrdd eraill yr oedd Cymru'n ceisio parhau i fod yn rhan o drafodaeth Ewropeaidd, e.e. drwy Grŵp Cyfeillgarwch yr UE-Cymru a gynhaliwyd gan Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop. Gallai'r holl fentrau hyn helpu Cymru i fabwysiadu dull mwy blaengar o ymdrin â hawliau a chynrychiolaeth menywod.<br><br>*Cam i'w gymryd: Bydd Menywod yn Ewrop (Cymru) yn llunio e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn ei gylchredeg ynghyd â'r ddogfen amcanion allweddol.* |
| **5** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Medi 2021 am 11:30. |
| 6 | *Cloi* |